

**Darganfod
Dadlau
Dewis**

—
**Discover
Debate
Decide**

Gweithgaredd ABCh Blwyddyn 9 Gwnewch ddeddf ar gyfer Cymru



Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.

Gwnewch ddeddf ar gyfer Cymru

Amcanion:

Hyrwyddo dealltwriaeth o broses ddeddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Codi ymwybyddiaeth o sut y gall pobl Cymru gynnig syniadau am gyfreithiau newydd i'w hystyried gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r pwerau datganoledig sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Grŵp blwyddyn: 10

Tasg:

- Rhannwch y dosbarth i grwpiau.
- Rhowch bwnc y mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bŵer i wneud cyfreithiau yn ei gylch i bob grŵp, er enghraifft PRIFFYRDD A THRAFNIDIAETH, DIWYLLIANT, IECHYD, CHWARAEON A HAMDDEN, YR AMGYLCHEDD, ADDYSG A HYFFORDDIANT.
- Gofynnwch i bob grŵp am syniadau ar gyfer cyfreithiau newydd yn eu maes pwnc. Yna, rhaid i'r grwpiau benderfynu pa syniad y byddant am ei gyflwyno.
- Gofynnwch i bob grŵp ysgrifennu ei hoff syniad ar ddarn o bapur. Yna, dylid plygu'r papur a'i ddychwelyd i'r athro.
- Rhaid i'r athro osod pob darn o bapur yn y blwch a dewis un darn o bapur ar hap (y balot).
- Bydd y gyfraith arfaethedig neu'r Bil a ddewisir o'r balot yn cael ei gyhoeddi i'r dosbarth.
- Yna, bydd pob grŵp yn trafod pwyntiau o blaid ac yn erbyn y 'Bil'.
- Yna rhaid i bob grŵp benderfynu a yw'n dymuno dadlau o blaid neu yn erbyn y Bil.
- Bydd pob grŵp yn paratoi ei achos ac yn dewis llefarydd.
- Wedi i'r dadleuon gael eu lleisio, dylech gynnal pleidlais yn y dosbarth i benderfynu a fydd y Bil yn mynd rhagddo.

Nodyn ar gyfer athrawon

Mae rheolau'r Cynulliad ar gyfer cyfarfodydd, sef y 'Rheolau Sefydlog', yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gynnal balot ar gyfer Biliau Aelodau 'o dro i dro'. Dyma'r system a ddefnyddir gan Aelodau'r Cynulliad nad ydynt yn rhan o'r Llywodraeth i gynnig deddfau ar gyfer Cymru.

Bydd Aelodau'r Cynulliad sydd am gynnig deddfau yn ymgynghori â'r cyhoedd ac yn drafftio cynnig cyn cyflwyno'r Bil i'r Llywydd. Os bydd yn llwyddiannus yn y balot, gall yr Aelod gynnig y Bil yn y Cyfarfod Llawn. Os bydd Aelodau'r Cynulliad yn pleidleisio o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil, bydd yn mynd ymlaen i'r cyfnod pwyllgor er mwyn ymchwilio'n ofalus iddo ac er mwyn craffu arno.

Bydd Bil Aelod yn dod yn Ddeddf y Cynulliad dim ond os bydd mwyafrif yr Aelodau'n cefnogi'r cynnig yn y Cyfarfod Llawn ac y bydd y Frenhines yn ei gymeradwyo.

Bil	cyfraith arfaethedig ar gyfer Cymru
Y Llywydd	bydd yn cadeirio'r Cyfarfod Llawn yn y Senedd
Y Cyfarfod Llawn	cyfarfod o holl Aelodau'r Cynulliad
Llywodraeth Cymru	y grŵp o Weinidogion sy'n llywodraethu yng Nghymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff a gaiff ei ethol yn ddemocrataidd i wneud deddfau i Gymru ac i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif. Gall wneud cyfreithiau mewn 20 o bynciau sydd wedi'u datganoli.

Adnoddau: papur, beiro, blwch neu gynhwysydd bychan.

Pynciau ar gyfer cwestiynau a thrafodaethau:

01_Pam ei bod yn bwysig bod Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Llywodraeth yn cael cyfle i gyflwyno Bil i'r Llywydd?

02_Pa welliannau a fydddech chi'n eu gwneud i'r Bil a 'enillodd' falot y dosbarth?